# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG
Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.
Tel. 01758 730357


Chwefror, 2021.

Annwyl Fadam,

**Rheoli'r farchnad dai gwyliau**

Mewn cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn ddiweddar trafodwyd cais gan Gyngor Tref Nefyn yn gofyn am gefnogaeth i ddatgan pryder ynglyn a'r farchnad dai ym Mhen Llŷn, yn enwedig ail gartrefi a thai haf. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r sefyllfa wedi gwaethygu gyda phrisiau tai wedi mynd tu draw i gyrraedd y bobl leol a gwelir llif o bobl ddieithr yn prynu am bris allan o gyrraedd y mwyafrif ohonom. Fel y gwyddoch nid oes diwydiannau yma ym Mhenrhyn Llŷn ac felly dim cystadleuaeth ac o'r herwydd cyflogau cymharol isel a hyn yn ei dro yn ei gwneud yn amhosibl i'r bobl leol gystadlu gyda y diethriaid sy'n dod o ardaloedd diwydiannol a chyflogau uchel.

Y pryder mwyaf yw nad oes gan y teulu ifanc unrhyw obaith o gael prynu eu cartref cyntaf ac o'r herwydd maent yn symud o'r Penrhyn i chwilio am waith, ac wrth gwrs, mae hyn yn effeithio ar lawer iawn o ffactorau, colli'r iaith lle mae'r Llywodraeth yn anelu at gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050; cau ysgolion bach gwledig oherwydd y niferoedd yn gostwng; cau siopau lleol oherwydd y diffyg poblogaeth a.y. Oni fyddai'n argyfwng arnom petai poblogaeth Llŷn yn disgyn i'r fath raddau mai dim ond tai gwyliau ac ail gartefi fyddai'n bodoli a'r bobl hynny ond yn ymweld yn achlysurol yn ystod y flwyddyn.
Rhaid cofio fod Penrhyn Llŷn yn cael ei gydnabod fel un o gadarnleoedd ardaloedd Cymru o berthynas i'r iaith Gymraeg, ac felly rhaid gwneud pob ymdrech i ddiogelu ein hetifeddiaeth a diogelu'r hyn sydd gennym i'r 'oes a ddël.'

Hoffem felly bwyso arnoch i ystyried:

1. Fod yn rhaid cael caniatad cynllunio gan yr Awdurdod Lleol i droi tŷ preswyl yn ail gartref neu wneud ail gartef o dŷ newydd. Dylai'r Cynghorau Sir allu rheoli niferoedd ail gartrefi a thai gwyliau tymor byr gyda'r hawl i osod cap ar gyfer pob cymuned.
2. Newid y gyfraith i rwystro perchenogion ail gartrefi osogi talu premiwm treth cyngor ac hefyd eu hatal rhag manteisio ar y rhyddhad ar drethi busnes.

3. Codi treth uwch (efallai ei ddyblu) ar Dreth Trafodiadau Tir ar dai sy'n cael eu prynu ar gyfer ail gartrefi.
4. Rhoi caniatad i'r Cynghorau Sir godi'r premiwm treth ar ail gartrefi hyd at 200%.
5. Fod Cymdeithasau Tai yn gostwng prisiau 'tai fforddiadwy' fel y gall roi cyfle i bawb gael prynu tai eu hunain.
6. Rheoli tai gwyliau tymor-byr gan gynnwys AirBnB drwy drefn drwyddedu gan Gynghorau Sir.

'Rydym fel Cyngor yn ymwybodol fod cryn bryder 'nawr ymhlith ein trethdalwyr – mae poblogaeth Pen Llyn yn heneiddio ac oni fyddai'n drist gweld y Penrhyn hyfryd hwn yn ddim ond tai gwyliau/ail gartefi yn y dyfodol. Yn sicr mae angen diogelu ein cymunedau a sicrhau fod popeth o fewn ein gallu yn cael ei wneud i gadw ein hieuenctid yma a sicrhau dyfodol i'r laith Gymraeg a'n hetifeddiaeth.

Erfyniwn felly ar i chwi wneud popeth o fewn eich gallu fod cymunedau Pen Llŷn yn cael eu diogelu ac na welwn y Penrhyn yn mynd yn ddim ond tai gwyliau/ail gartrefi.

Yn gywir,

Clarc y Cyngor

Llythyr anfonwyd drwy e-bost at Julie James AS, Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
gyda chopi i:
Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru
Eluned Morgan AS, Gweinidog y Gymraeg
Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd Cyngor Gwynedd